# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 21 Ionawr 2015**

Amser:
**09.15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Siân Phipps**
Committee Clerk
0300 200 6565
SeneddBusnes@Cynulliad.Cymru

## Agenda

**Rhag-gyfarfod** (09.15-09.25)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Diweddariad ar yr UE (09.25-09.55) (Tudalennau 1 - 12)

Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
David Hughes, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru

**Dogfennau atodol:**
EBC(4)-02-15 (p.1) - Diweddariad ar yr UE

**Egwyl** (09.55-10.00)

## 3 Yr UE - craffu dilynol (10.00-11.30) (Tudalennau 13 - 35)

Jane Hutt, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Damien O'Brien, Prif Weithredwr, WEFO

Rob Halford, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil
EBC(4)-02-15 (p.2) - Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (11.30)

## Ôl-drafodaeth - Preifat (11.30-11.40)

## 5 Y Flaenraglen Waith (11.40-12.00) (Tudalennau 36 - 41)

**Dogfennau atodol:**
EBC(4)-02-15 (p.3) Blaenraglen Waith Haf 2015 (Saesneg yn unig)

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

## Sesiwn ddiweddaru'r UE

**Papur cefndir**

---

| **Dyddiad y sesiwn:** | **21 Ionawr 2015** |
|---|---|

Lluniwyd y papur hwn gan **Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE**, ar gyfer sesiwn ddiweddaru'r UE gyda'r Pwyllgor Menter a Busnes. Dyma sesiwn ddiweddaru'r UE gyntaf ers cynnal etholiadau Senedd Ewrop yn 2014 a phenodi'r Comisiwn Ewropeaidd newydd ac, felly, mae'n cynnwys gwybodaeth gefndir am y datblygiadau sefydliadol hyn, yn ogystal ag edrych ar goflenni penodol ar agenda'r UE sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gregg:
**Ffôn: 0032 2 226 6692**
**E-bost: Gregg.Jones@wales.gov.uk**

## Cynnwys

**1. Newidiadau sefydliadol yn yr UE** ........ 3
**2. Blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd** ........ 3
2.1. Canllawiau Gwleidyddol y Llywydd Juncker ........ 3
2.2. Cynllun Buddsoddi Ewrop ........ 4
2.3. Rhaglen Waith 2015 ........ 6
**3. Llywyddiaeth Latfia o'r UE (o'r Cyngor)** ........ 9
**4. Cyllid yr UE** ........ 9
**5. Argyfwng Ardal yr Ewro, diwygio trefniadau llywodraethu economaidd, Undeb Bancio** ........ 10
**6. Meysydd eraill a allai fod o ddiddordeb** ........ 11
6.1. Y gyfarwyddeb oriau gwaith ........ 11
6.2. Purfa Olew Murco ........ 11
**7. Pwyllgor y Rhanbarthau** ........ 11

## 1. Newidiadau sefydliadol yn yr UE

Roedd 2014 yn flwyddyn a welodd newidiadau sefydliadol yn yr UE, gydag etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai, a ddilynwyd gan y broses o enwebu a phenodi Llywydd newydd i'r Comisiwn Ewropeaidd, sef cyn Brif Weinidog Lwcsembwrg Jean-Claude Juncker, a Choleg y Comisiynwyr, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd. Er mwyn cwblhau'r darlun, yn ystod 2014, penodwyd Llywydd newydd i'r Cyngor Ewropeaidd, sef cyn Brif Weinidog Gwlad Pwyl Donald Tusk, a gymerodd le Herman Van Rompuy ac a gychwynnodd ar ei swydd ar 1 Rhagfyr.

O ran Senedd Ewrop mae carfan newydd o ASEau, gan gynnwys un ASE newydd o Gymru (ail-etholwyd y tri arall), Cadeiryddion (ac Is-gadeiryddion) Pwyllgorau newydd, aelodau newydd o Bwyllgorau, cydbwysedd gwleidyddol newydd ac ati. Bydd i hyn oblygiadau ar gyfer y pwyntiau rhyngweithio a'r pwyntiau cyswllt rhwng y Pwyllgor a Senedd Ewrop o ran y coflenni hynny sydd o'r diddordeb pennaf.

Mae Adran 2 yn ystyried blaenoriaethau strategol newydd y Comisiwn Ewropeaidd yn fanylach, yn ogystal â'r coflenni sydd fwyaf perthnasol yn Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae Adrannau 3 i 7 yn ymdrin â nifer o faterion eraill sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor fel rhan o frîff diweddaru ehangach ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r UE.

## 2. Blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd

### *2.1. Canllawiau Gwleidyddol y Llywydd Juncker*[1]

Ym mis Gorffennaf 2015 cyflwynodd Jean-Claude Juncker y 'canllawiau gwleidyddol' ar gyfer ei fandad fel Comisiwn Ewropeaidd, o dan y pennawd 'Agenda ar gyfer Swyddi, Twf, Tegwch a Newid Democrataidd'. Nodir 10 blaenoriaeth graidd ar gyfer 2015-2019, sy'n canolbwyntio ar swyddi a thwf economaidd, tra bod Juncker hefyd yn nodi'n glir ei fwriad i ganolbwyntio ymyriadau ar lefel yr UE ar y blaenoriaethau hyn a mabwysiadu dull llai ymyraethol o weithredu y tu allan i'r rhain:

> Bydd fy agenda yn canolbwyntio ar 10 maes polisi. Byddaf yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau pendant yn y 10 maes hyn. Y tu hwnt i hynny, byddaf yn gadael meysydd polisi eraill i'r Aelod-wladwriaethau sy'n fwy dilys ac mewn gwell sefyllfa i roi ymatebion polisi effeithiol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, yn unol ag egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd. Hoffwn **weld Undeb Ewropeaidd sy'n fwy o faint ac yn fwy uchelgeisiol o ran pethau mawr ac yn llai o faint ac yn fwy cymedrol o ran pethau bach.**

O gofio'r pwyslais ar swyddi a thwf mae'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau hyn yn berthnasol i'r Pwyllgor Menter a Busnes. Yn arbennig:

- Hwb Newydd i Swyddi, Twf a Buddsoddi: mae Cynllun Buddsoddi 'Juncker' yn rhan ganolog o hyn (gweler adran 2.2. isod)
- Marchnad Sengl Ddigidol Gysylltiedig: fel gydag ynni/hinsawdd ystyrir y gallai'r economi ddigidol fod yn ffynhonnell allweddol o dwf economaidd, gyda'r Comisiwn yn

[1] Gweler http://ec.europa.eu/commission/2014-2019/president_en

anelu at oresgyn darnio a rhwystrau sy'n atal Marchnad Sengl Ddigidol effeithiol rhag datblygu

- Undeb Ynni Cydnerth gyda Pholisi Blaengar ar Newid yn yr Hinsawdd: mae i hyn ffocws economaidd arbennig o gryf (ystyrir bod ynni/hinsawdd yn feysydd twf ar gyfer yr economi)
- Marchnad Fewnol Ddyfnach a Thecach gyda Sail Ddiwydiannol Gryfach: y nod yw sicrhau bod diwydiant yn cyfrif am 20% o CMC yr UE (mae'n cyfrif am 16% ar hyn o bryd)
- Undeb Economaidd ac Ariannol Dyfnach a Thecach: gan adeiladu ar y diwygiadau a gyflwynwyd o dan y Comisiwn blaenorol (gweler adran 5 i gael rhagor o wybodaeth am hyn)
- Cytundeb Masnach Rydd Resymol a Chytbwys â'r U.D.: h.y. cwblhau'r negodiadau parhaus ynghylch cytundeb TTIP (gweler **Research Service blog on TTIP** am ragor o wybodaeth gefndir am y sefyllfa bresennol a phryderon/materion yn y drafodaeth hon).[2]

## *2.2. Cynllun Buddsoddi Ewrop*

Fel y nodwyd, un o'r 'syniadau mawr' cynnar y mae'r Llywydd Juncker wedi bod yn ei hyrwyddo yw llunio Cynllun Buddsoddi newydd i Ewrop, gyda'r nod o ysgogi adferiad economaidd ar draws economi'r UE. Cyhoeddodd Juncker ei gynlluniau ar gyfer y fenter hon ar ddiwedd mis Tachwedd[3], sy'n canolbwyntio ar sicrhau pecyn buddsoddi gwerth €315bn rhwng 2015-17.

Cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad flog ar y cynigion (gweler tudalennau gwe **Pigion** ), ac atgynhyrchir rhai o'r prif bwyntiau yma.

Mae i gynllun buddsoddi Juncker dair prif elfen, sef:

- Creu Cronfa Ewropeaidd newydd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol (EFSI). Bwriedir i'r gronfa hon ysgogi buddsoddiad gwerth o leiaf €315 biliwn dros y tair blynedd nesaf, gan ddefnyddio buddsoddiad o €21 biliwn o arian cyhoeddus: €15bn gan gyllideb yr UE a €6bn gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB)
- "Llif o Brosiectau" ymarferol sy'n aros am fuddsoddiad, er mwyn galluogi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat i gael gwybodaeth am y prosiectau hyn. Byddai'r cynigion hyn ar gyfer prosiectau cyn cael cymorth technegol gan staff y Comisiwn.
- "Map Trywydd" i ddileu biwrocratiaeth a rhwystrau eraill sy'n atal buddsoddi yn Ewrop.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi amcangyfrif y gallai'r cynigion hyn gyfrannu hyd at €410 biliwn at CMC yr UE dros y tair blynedd nesaf a chreu hyd at 1.3 miliwn o swyddi newydd.

---

[2] Ar hyn o bryd mae TTIP yn destun ymchwiliadau mewn dau Bwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, sef: **Business, Innovation and Skills Committee** a'r **Environmental Audit Committee**; ac yn Senedd yr Alban **European and External Affairs Committee**. Cynhaliodd Is-bwyllgor Materion Allanol Tŷ'r Arglwyddi ymchwiliad i TTIP a **gyflwynodd adroddiad ym mis Mai 2014**.

[3] Gweler **http://europa.eu/rapid/press-release_IP-14-2128_en.htm**

Mae'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol (EFSI) yn ganolog i'r cynigion hyn. Bwriedir defnyddio'r gronfa hon er mwyn helpu i ariannu prosiectau mewn meysydd strategol allweddol megis ynni, trafnidiaeth, band eang, addysg, ymchwil ac arloesedd. Gofynnwyd i Aelod-wladwriaethau gyflwyno rhestrau o brosiectau i'r Comisiwn Ewropeaidd/Tasglu Banc Buddsoddi Ewrop sy'n gweinyddu'r gronfa, ar ôl dewis prosiectau yn ôl y tri maen prawf canlynol:

- Gwerth ychwanegol yr UE (prosiectau sy'n helpu i gyflawni amcanion yr UE).
- Ymarferoldeb a gwerth economaidd – blaenoriaethu prosiectau sy'n sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol sylweddol
- Prosiectau a all ddechrau o fewn y tair blynedd nesaf fan bellaf, h.y. disgwyliad rhesymol ar gyfer gwariant cyfalaf rhwng 2015 a 2017.

Mae'r Comisiwn yn gobeithio rhoi'r Gronfa ar waith erbyn canol 2015.

Er mwyn llywio'r broses hon gwnaeth 'Tasglu' dan arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop a gyda chynrychiolwyr o Aelod-wladwriaethau, waith i nodi llif posibl o brosiectau ar gyfer y Gronfa Ewropeaidd newydd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol. Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ganlyniadau'r gwaith hwn[4], gan nodi tua 2,000 o brosiectau ledled Ewrop gwerth tua €1.3 triliwn o fuddsoddiadau posibl, a oedd yn cynnwys prosiectau gwerth €500 biliwn a allai gael eu rhoi ar waith dros y tair blynedd nesaf. Ategir yr adroddiad gan 'ymwadiad' sy'n dweud nad yw'r rhestr yn un ddiffiniol ac nad yw'n gwarantu cefnogaeth, yn ogystal â dweud nad yw'n atal unrhyw fentrau eraill rhag cael eu cynnwys yn ddiweddarach.

Cyflwynodd y DU restr o brosiectau posibl a oedd yn cynnwys sawl prosiect o Gymru (neu lle roedd Cymru yn rhan o brosiect ehangach sy'n cwmpasu'r DU gyfan). Deallwn fod y rhestr o brosiectau yng Nghymru yn dod o ddiweddariad i Gynllun Buddsoddi Strategol 2012 Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau yng Nghymru fel a ganlyn:

- Ynys Ynni Môn (Cyfres integredig o fuddsoddiadau mewn ynni carbon isel (niwclear, gwynt, llanw, biomas a solar), sydd wedi'i seilio ar fuddsoddiad gwerth £8bn mewn ynni Niwclear).
- Morlyn Llanw Bae Abertawe (Adeiladu morlyn llanw 'prawf cysyniad' ym Mae Abertawe rhwng porthladdoedd Abertawe a Chastell-nedd).
- Datblygu ynni niwclear, gyda thri phrosiect posibl â chyfanswm capasiti o 12.2GW (Hinkley Point C, Wylfa a Moorside) y gwneir penderfyniad ynghylch buddsoddi ynddynt yn y dyfodol agos.
- Datblygu rhwydwaith gwres. Mae nifer o brosiectau i sefydlu rhwydweithiau gwres ar raddfa fawr wrthi'n cael eu datblygu, gan gynnwys rhai yn Stoke-on-Trent, Dyffryn Tees, Manceinion, Enfield (Llundain), Caerwysg, Caerdydd a Gateshead.

---

[4] Gweler http://europa.eu/rapid/press-release_IP-14-2480_en.htm

- Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd (Adeiladu amddiffynfeydd, systemau draenio trefol cynaliadwy a thechnegau rheoli defnydd tir er mwyn atal llifogydd, codi ymwybyddiaeth o lifogydd a chynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd yng Nghymru).
- Cronfa Twf Gwyrdd (Cynyddu nifer y prosiectau a chyflymu prosiectau i sicrhau buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Mae'r prif ffocws ar annog buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phrosiectau gwastraff).
- Cynllun Diogelu'r Amgylchedd (Er mwyn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy gynyddu'r lefel o ddiogelwch amgylcheddol yng Nghymru).
- Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Mae prosiect y Metro yn rhaglen drafnidiaeth integredig gwerth £3bn yn Ne-ddwyrain Cymru).
- Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd (Rhan newydd o'r Draffordd er mwyn mynd i'r afael â materion o ran capasiti a gwydnwch ar draffordd yr M4).
- Gwella Capasiti a Gwydnwch yr A465 (Bydd y cynllun, sy'n rhan o Raglen Deuoli'r A465, yn gwella mynediad i ran ogleddol Blaenau Gwent ac yn sicrhau manteision adfywio/cymunedol sylweddol i'r ardal honno).
- Yr A4232 Ffordd Gyswllt y Bae Dwyreiniol (Gwella'r ffordd bresennol er mwyn cysylltu Ardal Fenter Canol Caerdydd â'r M4).
- Gwella Capasiti a Gwydnwch yr A55 (Dileu'r dolenni coll er mwyn mynd i'r afael â materion o ran capasiti a gwella gwydnwch yr A55).

### *2.3. Rhaglen Waith 2015*[5]

Cafwyd ymatebion cymysg i Gynllun Buddsoddi Juncker, gyda nifer o sylwebyddion yn cwestiynu ei ymarferoldeb. Fodd bynnag, mae'n uchel ar yr agenda wleidyddol ar hyn o bryd ac mae'n un o flaenoriaethau craidd Rhaglen Waith 2015 (WP2015) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 16 Rhagfyr.

Mae'r WP2015 yn cynnwys dogfen gyfathrebu (11 o dudalennau o hyd) sy'n nodi'r sail resymegol dros y camau gweithredu a ddewiswyd ar gyfer 2015, ac mae'r rhain wedi'u grwpio o amgylch 10 blaenoriaeth wleidyddol Comisiwn Juncker ar gyfer 2014-2019. Mae hefyd yn cynnwys pedwar atodiad ategol, tri sy'n nodi manylion camau gweithredu a gynigir dros y flwyddyn (gan gynnwys mentrau presennol a gaiff eu diddymu/tynnu'n ôl) a phedwerydd atodiad sy'n nodi deddfwriaeth yr UE a ddaw i rym yn ystod 2015 yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth (deddfau gweithredu a deddfau wedi'u dirprwyo) a gaiff eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tabl isod yn nodi'r mentrau newydd hynny ar gyfer 2015 (o'r rhestr o 23 yn Atodiad 1 i'r Rhaglen Waith) sydd fwyaf perthnasol i waith y Pwyllgor Menter a Busnes.

Gan edrych ar y rhain yn fanylach:

[5] Gweler: http://ec.europa.eu/atwork/key-documents/index_en.htm

**Tabl 1: dewis y mentrau newydd (o'r 23 a gynigir yn Atodiad 1 i Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2015) sydd fwyaf perthnasol i'r Pwyllgor Menter a Busnes**

| Un o Fentrau Rhaglen Waith 2015 (gyda Disgrifiad byr) | Cyfleoedd i'r Pwyllgor gymryd rhan |
|---|---|
| **Cynllun Buddsoddi Ewrop:** Gweler adran 2.2 uchod. Lansiwyd ym mis Tachwedd 2014. Cyhoeddir cynigion deddfwriaethol yn fuan – bydd yn brif flaenoriaeth ar gyfer 2015 gan fod y ffocws ar gefnogi buddsoddiadau rhwng 2015 a 2017. | Monitro ymgysylltiad Llywodraeth Cymru (a Llywodraeth y DU) â'r fenter hon, gan gynnwys cynnydd o ran y rhestr o brosiectau posibl a gyflwynwyd i'r Comisiwn ar ddiwedd 2014.<br>Gallai fod yn rhan o waith ehangach sy'n edrych ar Fanc Buddsoddi Ewrop. |
| **Hyrwyddo integreiddio a chyflogadwyedd yn y farchnad lafur:** Amrywiaeth o fesurau i helpu pobl i ddod o hyd i waith, sy'n canolbwyntio ar bobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers amser hir, diweithdra ymhlith pobl ifanc ac ati. Adeiladu ar nifer o fentrau sy'n bodoli eisoes megis y warant ieuenctid. | Ystyried cyfleoedd a rhwymedigaethau a all ddeillio o unrhyw fentrau newydd yn y maes hwn, gan gynnwys y cysylltiad â'r broses o roi mesurau cyflogadwyedd ar waith o dan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru. |
| **Pecyn Symudedd Llafur:** Mesurau i gefnogi symudedd llafur a mynd i'r afael ag achosion o gamddefnyddio'r system gan gynnwys adolygu'r gyfarwyddeb 'gosod gweithwyr' a chydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol yn well ar draws Aelod-wladwriaethau | Mae hwn yn faes annatganoledig yn bennaf. Fodd bynnag, efallai y bydd ganddo ddiddordeb mewn edrych ar yr effaith y gallai unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol yr UE ei chael ar symudedd llafur. |
| **Adolygiad canol tymor o Ewrop 2020**<br>Strategaeth gyffredinol yr UE ar gyfer swyddi a thwf ers 2010 (o dan y Llywydd Barroso). Lansiwyd yr adolygiad canol tymor yn 2014 a bydd y Comisiwn yn cyflwyno Dogfen Gyfathrebu ar ganlyniadau'r adolygiad hwn yn ystod 2015. | Monitro cyfranogiad Llywodraeth Cymru yn yr adolygiad.<br>Ystyried effaith unrhyw newidiadau yn strategaeth Ewrop 2020 ar Gymru, yn arbennig gweithredu rhaglenni cyllido'r UE. |
| **Strategaeth Masnach a Buddsoddi ar gyfer Swyddi a Thwf**: mae hyn yn ehangach na TTIP (negodiadau rhwng yr UE a'r UD). Fodd bynnag, mae TTIP yn elfen allweddol o'r agenda fasnach ar gyfer 2015, gyda'r Comisiwn yn anelu at gwblhau'r negodiadau yn ystod 2015, amserlen a gymeradwywyd gan y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2014. | Mae'r prif ffocws ar gwestiynau economaidd – yr effaith ar fusnesau yng Nghymru, dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â masnach a buddsoddi. Mae'n debyg y bydd gan Bwyllgorau eraill (e.e. y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol) fwy o ddiddordeb mewn cwestiynau am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. |
| **Pecyn y Farchnad Sengl Ddigidol:** Mae datblygu'r farchnad sengl ddigidol yn un o 10 blaenoriaeth Juncker ac ystyrir bod hwn, ynghyd ag undeb ynni, yn faes strategol allweddol ar gyfer ysgogi twf economaidd a chreu swyddi. | Fel gyda'r Undeb Ynni a diwygiadau i'r Farchnad Sengl, mae'r Farchnad Sengl Ddigidol yn fenter fawr sy'n cwmpasu'r UE cyfan. Felly, mae'n debyg mai prin fydd y cyfleoedd i Gymru ddylanwadu ar y fenter a chyfrannu ati. Fodd bynnag, efallai y |

| | |
|---|---|
| | bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn ystyried sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. |
| **Fframwaith Strategol ar gyfer yr Undeb Ynni:** bydd yn canolbwyntio ar ddiogelu cyflenwadau ynni, integreiddio marchnadoedd ynni cenedlaethol, lleihau'r galw am ynni yn Ewrop, datgarboneiddio'r cymysgedd ynni a hyrwyddo ymchwil ac arloesedd ym maes ynni. Bydd yn cynnwys adolygu System Masnachu Allyriadau'r UE. | Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a fyddai'n bennaf cyfrifol am hyn o fewn y Cynulliad. Fodd bynnag, o gofio'r dimensiwn economaidd cryf efallai y bydd y Pwyllgor Menter a Busnes am gadw llygad ar y goflen hon. |

O'r **80 o gynigion deddfwriaethol cyfredol y bwriedir eu tynnu'n ôl neu sydd dan fygythiad o gael eu tynnu'n ôl (fel y nodir yn Atodiad 2 i WP2015)** tynnir sylw'r Pwyllgor ar y canlynol:

- **Economi gylchol o ran gwastraff** (pecyn deddfwriaethol): caiff y pecyn hwn, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2014, ei dynnu'n ôl a'i ddisodli gan becyn 'mwy uchelgeisiol' o gynigion a gyflwynir yn ystod 2015. O fewn y Cynulliad mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ymwybodol o'r goflen hon. Fodd bynnag, gallai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor Menter a Busnes gan fod sail resymegol economaidd gref i'r adolygiad hwn o ddeddfwriaeth gwastraff yr UE, sydd â'r nod o ysgogi arloesedd, swyddi a busnesau newydd drwy greu 'economi gylchol' sy'n gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau.

## 3. Llywyddiaeth Latfia o'r UE (o'r Cyngor)[6]

Latfia sy'n ymgymryd â Llywyddiaeth yr UE o'r Cyngor am chwe mis cyntaf 2015 (Lwcsembwrg fydd yn ymgymryd â hi am ail hanner y flwyddyn). Mae Llywyddiaeth yr UE yn cadeirio'r Cyngor, sy'n golygu ei bod yn llywio gwaith llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau o ddydd i ddydd wrth iddynt gymryd rhan ym mhroses llunio polisïau a deddfu yr UE. Mae Llywyddiaeth yr UE hefyd yn cynrychioli'r Cyngor mewn negodiadau â Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cynigion deddfwriaethol.

Bydd Llywyddiaeth Latfia yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth, y mae gan bob un ohonynt gysylltiadau cryf â 10 blaenoriaeth wleidyddol Comisiwn Juncker, sef:

- **Ewrop Gystadleuol:** pedwar prif bwnc ar yr agenda (i) Cynllun Buddsoddi Juncker; (ii) diwygiadau i'r Farchnad Sengl (iii) gwell gwaith rheoleiddio er mwyn gwella cystadleurwydd diwydiannol (iv) undeb ynni
- **Ewrop Ddigidol:** pum prif bwnc (i) diogelu data (ii) seiberddiogelwch (iii) trafodaethau cychwynnol ynghylch strategaeth ar gyfer y Farchnad Sengl Ddigidol (iv) bwrw ymlaen â'r negodiadau ynghylch pecyn y farchnad delathrebu (v) bwrw ymlaen â'r gwaith o ddigidoleiddio Ewrop gan gynnwys sgiliau digidol, eLywodraeth
- **Ewrop Ymgysylltiol:** dimensiwn polisi allanol. Ymhlith y pynciau y rhai mwyaf perthnasol i'r Pwyllgor hwn yw'r negodiadau ynghylch TTIP

Mewn egwyddor, dylai hyn olygu y gwelir cynnydd yn ystod Llywyddiaeth Latfia o ran y maes hwn, er y bydd hyn yn amlwg yn dibynnu ar sylwedd y trafodaethau.

## 4. Cyllid yr UE

Bydd y sesiwn graffu Weinidogol gyda Jane Hutt AC yn ymdrin â pharatoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglenni Buddsoddi Strwythurol ac Ewropeaidd newydd yng Nghymru, yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar ymchwiliadau'r Pwyllgor i Horizon 2020 a Chyfleoedd Ariannu'r UE ar gyfer 2014-2020. Felly, nid ymdrinnir â'r rhain yn y papur hwn.

---

[6] Gweler gwefan Llywyddiaeth Latfia o'r UE: https://eu2015.lv/

## 5. Argyfwng Ardal yr Ewro, diwygio trefniadau llywodraethu economaidd, Undeb Bancio

Yn ystod y Senedd Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd blaenorol (2009-2014) roedd llawer iawn o ddeddfwriaeth yn y sector gwasanaethau ariannol a bancio, y bwriadwyd iddi gyflwyno fframwaith rheoliadol cryfach er mwyn mynd i'r afael â rhai o achosion canfyddedig yr argyfwng ariannol ac economaidd. Ategwyd hyn gan ymgais i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu economaidd ardal yr Ewro (a'r UE ehangach), yng nghyd-destun y pecynnau ariannol a luniwyd er mwyn achub gwledydd unigol (e.e. Gwlad Groeg, Portiwgal, Iwerddon) gan gynnwys gwarantau'r UE a'r IMF y bwriadwyd iddynt osgoi chwalfa ariannol, ac sydd wedi symud dros amser tuag at ddull strwythuredig a mwy 'hirdymor' o ddiwygio'r Undeb Ariannol Ewropeaidd (UAE).

Mae tudalennau gwe'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymdrin â 'Llywodraethu Economaidd' yn esbonio'r broses hon yn fanwl, gan gynnwys y pecynnau deddfwriaethol gwahanol (y Pecyn o Chwech a'r Pecyn o Ddau fel y'u gelwir) a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn, a **Chytundeb y Compact Cyllidol** fel y'i gelwir (y cytunwyd arno fel 'cytundeb rhyngwladol' ym mis Rhagfyr 2011 ac a lofnodwyd yn ddiweddarach gan 25 o Aelod-wladwriaethau – nis llofnodwyd gan y DU na'r Weriniaeth Tsiec). Mae'r rhain yn trosi'n system monitro, atal a chywiro ar gyfer trefniadau llywodraethu economaidd yr UE, gyda mesurau penodol ar gyfer ardal yr Ewro, ac yn cynnwys camau gweithredu i atgyfnerthu gweithgarwch monitro cyllidebau, cyflwyno toriadau cyllidebol a sicrhau mwy o gysondeb rhwng cylchoedd cynllunio cyllidebol ar lefel yr UE.[7]

Agwedd bwysig ar y broses hon oedd creu'r **Semester Ewropeaidd**[8] y cytunwyd arno yn 2010 (ac a gyflwynwyd yn 2011), fel cylch blynyddol i sicrhau bod polisïau economaidd yn cael eu cydgysylltu'n well ar lefel yr UE a'r Aelod-wladwriaethau. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi Arolwg Twf Blynyddol, System Rybuddio (sy'n ymwneud â diffygion/gwariant cyhoeddus) a Chanllawiau ar Gyflogaeth er mwyn lansio'r cylch hwn a chyhoeddwyd y fersiynau diweddaraf ym mis Tachwedd 2014. Fe'u defnyddir i lywio Rhaglenni Sefydlogrwydd a Thwf/Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol Aelod-wladwriaethau, ac maent yn cynnwys argymhellion a chanllawiau gwlad-benodol er mwyn i Aelod-wladwriaethau unigol weithredu. Ystyrir y rhain gan y Cyngor Ewropeaidd yn ei gyfarfod yn y Gwanwyn ac wedyn cytunir arnynt gan Benaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau'r UE ym mis Mehefin. Mae'r Aelod-wladwriaethau wedyn yn gyfrifol am roi blaenoriaethau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, yn cymryd rhan yn y broses o werthuso ac adolygu Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, gyda Llywodraeth y DU yn arwain y broses hon.

Ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 mae cysylltiad uniongyrchol wedi'i wneud rhwng y cylch polisi economaidd hwn a'r rhaglenni gwahanol, gan gynnwys cyflwyno amodau macro-economaidd y bwriedir iddynt sicrhau bod

[7] Gweler http://ec.europa.eu/economy_finance/economic_governance/index_en.htm
[8] Gweler http://ec.europa.eu/economy_finance/economic_governance/the_european_semester/index_en.htm

rhaglenni yn helpu i gyflawni diwygiadau a blaenoriaethau economaidd y cytunwyd arnynt.

## 6. Meysydd eraill a allai fod o ddiddordeb

### *6.1. Y gyfarwyddeb oriau gwaith*

Lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith ym mis Rhagfyr 2014 (daw i ben ym mis Mawrth 2015). Mae i'r goflen hon hanes hir, yn dilyn ymgais aflwyddiannus i gytuno ar ddiwygiadau i'r Gyfarwyddeb wreiddiol rhwng 2006 a 2009, pan oedd y DU yn un o'r Aelod-wladwriaethau a ffurfiodd leiafrif rhwystro. Ers 2010 nid yw'r goflen wedi gwneud unrhyw gynnydd ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd unwaith eto yn ystyried y dadleuon o blaid diwygio'r ddeddfwriaeth.

Bydd hyn o ddiddordeb arbennig i'r GIG yng Nghymru gan fod newidiadau posibl i ddiffiniadau o amser ‘ar alwad’ a'r goblygiadau i wasanaethau brys yn benodol yn achos pryder mawr i Lywodraeth y DU yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'n goflen y bydd y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd am barhau i'w monitro, o bosibl.

### *6.2. Purfa Olew Murco*

Ym mis Rhagfyr lluniodd y Gwasanaeth Ymchwil **flog ar y penderfyniad i gau Purfa Olew Murco**, yn dilyn trafodaethau mewn cyfarfod llawn ag Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ynghylch cymorth ariannol posibl a allai fod ar gael gan yr UE i gynorthwyo'r gweithwyr sy'n wynebu cael eu diswyddo.

Mae blog y Gwasanaeth Ymchwil yn edrych yn benodol ar Gronfa Addasu Globaleiddio Ewrop (EGF), a sefydlwyd yn 2006 er mwyn rhoi cymorth i bobl sy'n colli eu swyddi oherwydd newidiadau strwythurol mawr ym mhatrymau masnach y byd sydd i'w priodoli i globaleiddio. Gellir darparu arian pan fydd cwmni mawr yn cau neu pan symudir cynhyrchiant y tu allan i'r UE, neu pan gollir swyddi o ganlyniad i'r argyfwng economaidd ac ariannol byd-eang.

Hyd yma nid yw'r DU wedi cyflwyno cais i'r EGF.

## 7. Pwyllgor y Rhanbarthau

Bydd Pwyllgor y Rhanbarthau, ar yr amod y caiff cytundeb ffurfiol ei gadarnhau gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd, yn cychwyn mandad pum mlynedd newydd (ar gyfer 2015-2019) yn fuan. Golyga hyn y bydd aelodaeth newydd, gan gynnwys dirprwyaeth newydd o Gymru, yn ogystal â newidiadau i strwythurau'r pwyllgorau (a elwir yn ‘Gomisiynau’).

Nodir isod yr aelodau Cymreig o Bwyllgor y Rhanbarthau (y mae tri ohonynt eisoes yn aelodau):

- **Mick Antoniw AC** (aelod llawn): mae'n gobeithio eistedd ar Gomisiwn SEDEC sy'n ymdrin â materion cymdeithasol, addysg, cyflogaeth a diwylliant. Mae hefyd yn gobeithio parhau i fod yn aelod o CORLEAP, sef y ‘Bartneriaeth Ddwyreiniol’ sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr cyn wledydd y bloc Sofietaidd sy'n ffinio â ffin ddwyreiniol yr UE neu sy'n agos ati.

- **Rhodri Glyn Thomas AC** (eilydd): mae'n gobeithio eistedd ar Gomisiwn ENVI, sy'n ymdrin â'r amgylchedd, ynni a newid yn yr hinsawdd.
- **Y Cynghorydd Bob Bright** (aelod llawn): mae'n gobeithio eistedd ar Gomisiwn COTER, sy'n ymdrin â Pholisi Cydlyniant (Cronfeydd Strwythurol), Cydlyniant Tiriogaethol a chyllideb.
- **Y Cynghorydd Ronnie Hughes** (eilydd): mae'n gobeithio eistedd ar Gomisiwn NAT, sy'n ymdrin ag amaethyddiaeth, materion gwledig, pysgodfeydd a materion morwrol.

Cadarnheir pa Gomisiynau sydd wedi'u pennu ar gyfer aelodau'r DU mewn cyfarfod o ddirprwyon o'r DU yn LGA House, Llundain ar 23 Ionawr.

Trefnwyd cynnal cyfarfod llawn cyntaf Pwyllgor newydd y Rhanbarthau yn wreiddiol ym Mrwsel rhwng 11 a 13 Chwefror. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd y Cyngor wedi cymeradwyo'r mandad newydd yn ffurfiol mewn pryd i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal. Os na fydd hyn yn digwydd, mae'r cyfarfod llawn cyntaf yn annhebygol o gael ei gynnal cyn mis Mawrth.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Menter a Busnes 21 Ionawr 2014**

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllid Ewropeaidd gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**

**Papur Tystiolaeth**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yr UE, Horizon 2020 a chyfleoedd cyllido eraill yr UE, gan gynnwys y paratoadau ar gyfer rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd 2014-2020.

**Y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

2. Yn dilyn trafodaethau manwl â'r Comisiwn ynghylch y Rhaglenni Gweithredol ar gyfer Cymru ac ar ôl cytuno ar Gytundeb Partneriaeth y DU (UKPA) ar 29 Hydref 2014, cymeradwywyd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar 20 Tachwedd a 5 Rhagfyr 2014, yn y drefn honno.

3. Golyga hyn mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gael cymeradwyaeth ar gyfer ei rhaglenni a'i bod ymhlith y gwledydd cyntaf yn yr UE i wneud hynny. Bydd y rhaglenni, sy'n werth bron £2 biliwn, yn ysgogi cyfanswm buddsoddiad o tua £2.9bn (h.y. gydag arian cyfatebol) a bydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau cyffredin ar draws y Llywodraeth i sicrhau twf economaidd cynaliadwy a chreu swyddi.

4. Mae'r buddsoddiadau y cytunwyd arnynt yn adlewyrchu ffocws y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ar grynodi ac integreiddio cronfeydd yr UE yn fwy er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl.

5. Ymhlith buddsoddiadau'r ERDF mae'r canlynol:

    - cynnydd o 45% yn yr arian a ddarperir ar gyfer Ymchwil ac Arloesi, sy'n golygu bod cronfeydd yr UE bellach yn werth cyfanswm o £310m;
    - cynnydd sylweddol yn yr arian a ddarperir i gynyddu Cystadleurwydd BBaChau, gan gynnwys cyllid busnes, gwerth £198m;
    - £439m ar gyfer Cysylltedd a Datblygu Trefol, gan gynnwys buddsoddiad gwerth £252m gan yr UE ar gyfer buddsoddiadau gweddnewidiol mewn trafnidiaeth gyhoeddus megis y Metro;
    - cynnydd sylweddol yn yr arian sydd ar gael ar gyfer ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, sef £154m, gyda ffocws penodol ar Ynni'r Môr.

6. Ymhlith rhaglenni'r ESF mae'r canlynol:

- tua £190m (22% o'r cronfeydd ESF) er mwyn trechu tlodi yng Nghymru drwy helpu pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy, gan helpu'r unigolion mwyaf ymylol a difreintiedig;
- cynnydd o 20% yn y cymorth ariannol sydd ar gael (sy'n cyfateb i fuddsoddiad o £353 miliwn gan yr UE) i ddatblygu sgiliau cyflogeion a fydd yn cynnal economi wybodaeth arloesol o ansawdd uchel;
- dros £240m i helpu pobl ifanc ledled Cymru i ddychwelyd i'r gwaith a chodi lefelau cyrhaeddiad, gan gynnwys mewn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg;
- buddsoddiadau penodol i wella cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle.

7. At hynny, sicrhawyd cynnydd o 10 pwynt canrannol yng nghyfraddau ymyrryd yr UE gyda'r Comisiwn a fydd yn lleihau gofynion arian cyfatebol rhaglenni yn sylweddol.

*Trefniadau cyflawni*

8. Bu gwaith yn mynd rhagddo ers sawl mis i baratoi ar gyfer cymeradwyo'r rhaglenni, gan gynnwys datblygu nifer o gynigion ar gyfer prosiectau ‘meingefn’.

9. Cyfarfu Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru 2014-2020 hefyd ar ffurf gysgodol sawl gwaith y llynedd ac ar 5 Rhagfyr cytunodd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, sydd wedi'i sefydlu'n ffurfiol, ar y meini prawf blaenoriaethu a dethol sydd i'w defnyddio gan WEFO wrth gymeradwyo cyllid yr UE.

10. Paratôdd y gwaith cychwynnol hwn y ffordd ar gyfer cyhoeddi, ar 15 Rhagfyr, fod y prosiect cyntaf wedi'i gymeradwyo, sef Campws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth (£20 miliwn o gyllid yr UE). Gan fod mwy o gynigion ar gyfer prosiectau wedi'i datblygu, fwy neu lai, bwriedir cyhoeddi bod rhagor o brosiectau wedi'u cymeradwyo dros y misoedd i ddod.

11. Mae gwaith hefyd wedi bod yn mynd rhagddo i gyflwyno costau symlach er mwyn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr drwy newid y ffocws o ddangos gwariant i system sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Mae'r dull hwn o weithredu, yn ogystal â phenderfyniad y Comisiwn i gyflwyno ‘cronfa berfformiad wrth gefn’ ar gyfer rhaglenni (sy'n cyfateb i 6 y cant o werth y rhaglen), yn adlewyrchu'r ffocws cryfach ar sicrhau bod buddsoddiadau'r UE yn cyflawni canlyniadau.

**Horizon 2020**

12. Horizon 2020 yw rhaglen Ymchwil ac Arloesi fwyaf yr UE, gyda €79 biliwn ar gael dros saith mlynedd. Lansiwyd y rhaglen yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013, ac er na ddisgwylir yr adborth sylweddol cyntaf gan y Comisiwn ar berfformiad Horizon 2020 tan y Gwanwyn, mae canfyddiad cryf bod Horizon 2020 yr un mor gystadleuol â'i rhagflaenydd, sef Rhaglen Fframwaith (FP7), neu ei bod hyd yn oed yn fwy cystadleuol na hi. Fodd

bynnag, dylai'r effaith bosibl ar berfformiad yng Nghymru gael ei gwrthbwyso gan fesurau Llywodraeth Cymru i adeiladu ar wersi a ddysgwyd o FP7 a'r brwdfrydedd cynyddol sy'n amlwg ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru dros fanteisio ar Horizon 2020.

13. Mae'r mesurau i adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn cynnwys, er enghraifft, Astudiaeth Gwmpasu CM International[1], a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i geisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ym meysydd ymchwil ac arloesi ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar sefydliadau yng Nghymru.

14. Cymeradwyodd yr Astudiaeth y dull gweithredu y mae Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu wrth weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, y DU ac Ewrop i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan Horizon 2020. Nododd hefyd bum prif ‘fwlch’ lle y gallai'r Uned a/neu randdeiliaid ddarparu cymorth neu wasanaethau priodol:

- System glirio ddeallus ar gyfer gwybodaeth a chyngor;
- Troi sefydliadau â diddordeb yn ymgeiswyr;
- Datblygu consortia a phartneriaethau llwyddiannus;
- Gwelededd, ymgysylltu a rhagoriaeth;
- Arbenigo craff, Horizon 2020 a'r llwybr at ragoriaeth.

15. Gwnaeth yr Astudiaeth argymhellion ar sut i fynd i'r afael â'r ‘bylchau’ ac mae'n rhoi sail gadarn dros unrhyw benderfyniadau pellach ar y strwythur cymorth yng Nghymru.

16. Cydnabu'r Astudiaeth hefyd y rôl bwysig y mae cynllun SCoRE Cymru (Cefnogi Ymchwil ac Arloesi Cydweithredol yn Ewrop), a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ei chwarae o ran helpu sefydliadau yng Nghymru i fanteisio ar Horizon 2020  Mae'r gronfa, sydd bellach yn werth £100,000 bob blwyddyn, yn rhoi hyd at £1,000 i ymgeiswyr ar gyfer costau teithio a hyd at £10,000 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu ceisiadau. Ers iddi gael ei sefydlu, mae WEFO wedi dyfarnu £103,000 i 28 o sefydliadau, gyda 78% y cant o'r arian hwnnw yn mynd i BBaChau yng Nghymru.

17. Mae Uned Horizon 2020 WEFO yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid gan gynnwys y sector addysg uwch yng Nghymru, Innovative UK a Rhwydwaith Menter Ewrop yng Nghymru er mwyn cynnal cyfres o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a digwyddiadau technegol wedi'u targedu, megis y rhai a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Ebrill a Llanrwst ym mis Tachwedd y llynedd.  Ers digwyddiad lansio'r rhaglen yng Nghymru ym mis Tachwedd  2013, cynhelir y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau Horizon 2020 blynyddol yng Nghaerdydd ar 18 Chwefror.

---

[1] Horizon 2020 Astudiaeth Gwmpasu, CM International, Mai 2014 (http://wefo.wales.gov.uk/publications/publications/monitoringevaluation/programmeevaluations/horizon2020scopingstudy/)

Hefyd, mae mwy o ffocws ar hyrwyddo arbenigedd Cymru ym Mrwsel a chreu synergeddau rhwng Cronfeydd Strwythurol a buddsoddiadau Horizon 2020. Er enghraifft, mae WEFO wedi bod yn trafod â Swyddfa'r Prif Swyddog Gwyddonol pa un a fyddai modd i Gynllun Cymrodoriaethau Cymru fanteisio ar Horizon 2020 a Chronfeydd Strwythurol fel y gall ddenu mwy o ymchwilwyr talentog i Gymru a datblygu rhagoriaeth ym maes ymchwil ymhellach.

18. At hynny, mae Uned Horizon 2020 wrthi'n ystyried sawl cam gweithredu arall mewn ymateb i'r Astudiaeth, gan gynnwys y canlynol:

- datblygu a hyrwyddo ‘rhwydwaith cymorth’ ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer gorau rhwng rhanddeiliaid ym meysydd ymchwil ac arloesi sy'n bodoli eisoes ac yn dod i'r amlwg yng Nghymru a Brwsel;
- cyflwyno cymorth un i un i helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan Horizon 2020;
- datblygu ‘cymuned ymarfer’ o arbenigwyr a gwerthuswyr Horizon 2020 yng Nghymru er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael mwy o ddylanwad ar y broses o gyflawni Horizon 2002 a rhoi gwybodaeth i gymuned ehanagach Horizon 2020 yng Nghymru.

**Cyfleoedd cyllido eraill yr UE, gan gynnwys Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC)**

*Rhaglenni cyllid yr UE a Reolir yn Uniongyrchol*

19. Yn ogystal â Horizon 2020, mae rhaglenni cyllid eraill yr UE a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn yn cynnig cyfleoedd pwysig i fuddsoddi ym meysydd cystadleurwydd busnesau (COSME); diwydiannau creadigol a diwylliannol (Ewrop Greadigol); rhwydweithiau trafnidiaeth, ynni a digidol (Cysylltu Ewrop); cadwraeth a'r amgylchedd (LIFE+) a chyfleoedd astudio dramor (ERASMUS+).

20. Gan adeiladu ar argymhellion a wnaed mewn adroddiadau diweddar gan Bwyllgorau'r Cynulliad y dylid sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru yn hyrwyddo'r cyfleoedd cyllido hyn ac yn manteisio arnynt i'r eithaf, sefydlwyd panel o Genhadon Cyllid yr UE fis Rhagfyr diwethaf sy'n cynnwys Dr Grahame Guilford, Dr Hywel Ceri Jones a Gaynor Richards MBE. Gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad o weithio yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac o faterion yn ymwneud â chyllid Ewropeaidd yn gyffredinol, byddant yn helpu i atgyfnerthu'r trefniadau partneriaeth sydd eu hangen er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyllid Ewropeaidd hwn.

*Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeiadd (ETC) 2014-2020.*

21. Mae pedair o'r pum prif raglen ETC ar gyfer 2014-2020 y bydd Cymru yn cymryd rhan ynddynt wedi'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn a bydd trafodaethau yn dechrau yn fuan. Mae trafodaethau ynghylch rhaglen

Ardal yr Iwerydd rhwng yr Aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a'r Awdurdod Rheoli yn Port, Portiwgal, yn parhau; bwriedir cyflwyno'r rhaglen mor gynnar â phosibl eleni.

22. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn dyraniadau ariannol arfaethedig Llywodraeth y Du ar gyfer y gwahanol raglenni ETC. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Iwerddon/Cymru 2014-2020, a gafodd y cynnydd mwyaf yn nyraniad y DU (cynnydd 23% o gymharu â 2007-2013) ar gyfer rhaglenni trawsffiniol sy'n cynnwys y DU.

23. Nodir isod gwerthoedd terfynol yr ERDF ar gyfer pob un o'r prif raglenni:

- Iwerddon Cymru Trawsffiniol: €79 miliwn
- Ardal yr Iwerydd Trawsgenedlaethol: €140 miliwn
- Gogledd-Orllewin Ewrop Trawsgenedlaethol: €396 miliwn
- Interreg Ewrop Ryngranbarthol: €359 miliwn
- URBACT Rhyngranbarthol: €74 miliwn

*Astudiaeth Gwmpasu a Strategaeth ETC 2014-2020*

24. Cyhoeddwyd Astudiaeth Gwmpasu ETC, a gomisiynwyd gan WEFO i geisio barn partneriaid mewn rhaglenni ar eu profiadau o'r rhaglenni ETC a'r rhan yr oeddent wedi'i chwarae ynddynt, ar ddiwedd 2014.

25. Mae WEFO yn ystyried canfyddiadau'r astudiaeth er mwyn helpu i lywio Strategaeth ETC wedi'i diweddaru er mwyn sicrhau bod partneriaid yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan y rhaglenni ETC; caiff y strategaeth ei chwblhau ar ddechrau'r flwyddyn hon.

*Rhaglen Gydweithredu Iwerddon/Cymru*

26. WEFO fydd yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglen Iwerddon/Cymru 2014-2020, ac mae'n arwain y gwaith o'i datblygu a pharatoi ar gyfer ei chyflawni ar y cyd â phartneriaid yn Iwerddon a Chymru.

27. Cyflwynwyd rhaglen Gydweithredu Iwerddon/Cymru 2014-2020 i'r Comisiwn erbyn y dyddiad cau rheoliadol, sef 22 Medi 2014, a disgwylir iddi gael ei chymeradwyo'n ffurfiol erbyn mis Mawrth.

28. Bydd rhaglen Iwerddon/Cymru, sy'n werth €100 miliwn (ERDF €79m), yn crynodi buddsoddiadau yn fwy, fel a ganlyn:

- Arloesi Trawsffiniol;
- Addasu Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol i Newid yn yr Hinsawdd a Newidiadau Diwylliannol
- Adnoddau Naturiol a Threftadaeth.

29. O gofio natur forol y ffin rhwng Iwerddon a Chymru, bydd y manteision y gellir eu sicrhau o Fôr Iwerddon yn ffocws canolog i fuddsoddiadau rhaglenni.

30. Mae'r gwaith paratoi ar y trefniadau ar gyfer cyflawni rhaglen Iwerddon/Cymru yn cynnwys y broses o ffurfio Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a gwblheir ar ddechrau'r flwyddyn hon. Cynhelir digwyddiad i lansio'r rhaglen ar gyfer rhanddeiliaid yn Iwerddon a Chymru yng Nghymru hefyd y Gwanwyn hwn.

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon